Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd trwy gyfrwng Zoom **nos Lun, 8 Chwefror 2021** am **7:45p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, Ian Lewney, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

10. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd John Wynne Hughes.

11. DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaeth y Cynghorydd Gavin Harris ddatgan buddiant yn y cais cynllunio yn ymwneud â chyn safle Wynnstay Stores ar Heol y Parc am ei fod yn adnabod yr ymgeisydd fel cwsmer ei fusnes ac yn y cais ar gyfer 1A Stryd y Prior am ei fod yn berchennog bwyty.

12. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2021 yn gywir.

13. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

14. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc fod y penderfyniadau cynllunio a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych ers y cyfarfod blaenorol fel a ganlyn.
02/2020/0822 - Coed y Bryn, Bryn Goodman, Rhuthun – Torri un goeden ffawydden gopr sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Diogelu Coed 126/7/1993 – Caniatawyd
02/2020/0854 - 23 Stryd Clwyd, Rhuthun – Newid defnydd o siop (Defnydd Dosbarth A1) i swyddfa cyfreithiwr (Defnydd Dosbarth A2) – Caniatawyd
02/2020/0855 - 23 Clwyd Street, Rhuthun – Dangos arwyddion/hysbysebion yng nghyswllt y swyddfa cyfreithwyr – Caniatawyd
02/2020/0845 – Ty'n y Wern, Ffordd Corwen, Rhuthun – Adeiladu adeilad da byw amaethyddol – Caniatawyd
02/2020/0819 - 40 Bro Deg, Rhuthun – Adeiladu estyniad unllawr ar ochr yr annedd a gwaith cysylltiedig – Caniatawyd

15. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau isod.*
02/2021/0012 - 4 Tan yr Eglwys, Ffordd yr Ysgol, Rhuthun
Adnewyddu'r ffenestri a drysau pren gyda rhai UPVC gwyn yn y fflat llawr gwaelod
02/2021/0021 – Tandderwen, Ffordd Cae Glas, Rhuthun
Tynnu pren marw a lleihau coron coeden dderwen
02/2021/0018 - Llanrhydd Manor, Stryd Llanrhydd, Rhuthun
Newid defnydd swyddfeydd (Defnydd Dosbarth B1) yn annedd (Defnydd Dosbarth C3), tirlunio a gwaith cysylltiedig
02/2021/0028 - Scott House, Ffordd Corwen, Rhuthun
Gwaith ar goed sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Diogelu Coed
02/2021/0039 - Fflat 1, 1A Stryd y Prior, Rhuthun
Newid defnydd fflat llawr gwaelod yn fwyty (Dosbarth A3)
02/2021/0078 – 4 Cae Castan, Rhuthun
Adeiladu estyniad i'r blaen, ochr a'r cefn

PENDERFYNWYD: *gwneud sylwadau ynghylch y ceisiadau a ganlyn am y rhesymau a nodir isod:*
02/2020/0990 – Cyn Siop Wynnstay, Heol y Parc, Rhuthun
Arddangos un arwydd ffasgia wedi'i oleuo'n allanol ac un arwydd yn sefyll

- awyddus i weld yr wybodaeth y gofynnwyd amdani gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus

02/2021/0037 - Bron Parc, Galltegfa, Rhuthun

Adeiladu estyniadau i storfa offer amaethyddol a sied ddefaid; ac adeilad sied storio gwellt/gwair

- angen sicrhau fod y cynlluniau'n ystyried pryderon Cyfoeth Naturiol Cymru

16. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 8 Mawrth 2021, am 7.45pm.*